

Manyleb rhinweddau'r unigolyn

Gwybodaeth – Hanfodol

- Bod yn gyfarwydd â chymhlethdodau a hynodion corff a gyllidir yn gyhoeddus
- Gwybodaeth am yr ymrwymïadau rheoleiddio sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus
- Dealltwriaeth am weinyddiaeth ddatganoledig Cymru
- Dealltwriaeth o'r ymdeimlad Cymreig o hunaninaeth genedlaethol, yn cynnwys ei diwylliant dwyieithog
- Dealltwriaeth sut mae ardrethi a'r dreth gyngor yn sail i ddarpariaeth gwasanaethau lleol
- Dealltwriaeth am bwysigrwydd systemau Technoleg Gwybodaeth mewn sefydliadau modern ac effeithiol

Gwybodaeth – Dymunol

- Gwybodaeth drwyadl am egwyddorion ardrethu a'r dreth gyngor
- Gwybodaeth drwyadl am ddeddfwriaeth atebolrwydd y dreth gyngor

Sgiliau – Hanfodol

- Cyfathrebwr effeithiol – yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Llythrennedd ariannol a busnes – y gallu i gynllunio a rheoli cyllidebau a sut i asesu, dadansoddi a mynd i'r afael â materion ariannol a gweithredol
- Sgiliau Technoleg Gwybodaeth cymwys mewn prosesu geiriau, llunio taenlenni, defnyddio meddalwedd cyflwyniadau a meddalwedd cydweithio (e.e. Zoom a MS Teams)

Sgiliau – Dymunol

- Sgiliau Technoleg Gwybodaeth lefel uwch, sy'n galluogi ymdrin â phroblemau meddalwedd a chaledwedd o ddydd i ddydd a gweithredu dangosfyrddau/paneli rheoli gweinyddol rhaglenni sy'n gweithredu trwy gyfrwng y 'cwmwl' (Microsoft 365 , Azure a Zoom yn benodol)

Profiad – Hanfodol

- Profiad o weithredu ar lefel uwch reolwr
- Profiad o reoli pobl, rheoli adnoddau a rheoli cyfleusterau
- Profiad o ysgogi, datblygu a rhoi polisi ar waith
- Profiad o reoli cyllidebau

Profiad – Dymunol

- Profiad o reoli newid sefydliadol
- Profiad o reoli adeiladau ac ymdrin â landlordiaid

Rhinweddau personol – Hanfodol

- Awdurdod personol – y gallu i arwain, creu argraff ac ysbrydoli
- Y gallu i berswadio, eiriol, negodi a dylanwadu
- Y gallu i ddangos empathi, mentora, cefnogi a datblygu eraill
- Parodrwydd ‘i fynd yr ail filltir’ – h.y. cyfrannu amser ychwanegol, teithio pan fo’n ofynnol ac aros dros nos os oes angen
- Bod yn agored ac yn barod i ymateb i newid
- Arloeswr
- Y gallu i weld y darlun mawr a’r manylion lleiaf
- Gwytnwch a bod yn barod i fod yr un sy’n ysgwyddo’r cyfrifoldeb

Y Gymraeg – Hanfodol

- Ymrwymiad brwdfrydig i ddysgu’r Gymraeg i safon a fydd yn galluogi’r unigolyn i ddefnyddio’r iaith ar lefel sgwrsio o ddydd i ddydd a busnes y Cyngor Llywodraethu

Y Gymraeg – Dymunol

- Rhugl yn y Gymraeg i safon uchel, yn ysgrifenedig ac ar lafar